Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol
Diogelwch Plant ar-lein – 11 Hydref 2017

Sylwadau agoriadol gan **David Hopkins, Stop it Now! Cymru**
Cyflwynodd David Grŵp Ieuenctid Caerdydd a fydd yn cyfrannu at y digwyddiad, ac eglurodd fod hwn yn gyfarfod ar y cyd gan ddau Grŵp Trawsbleidiol – y Grŵp ar gyfer Atal Cam-drin Plant a'r Grŵp ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Trafodwyd yn fyr pa mor bwysig ydyw i bobl ifanc arwain y broses hon.
Rhoddwyd amlinelliad o'r agenda ar gyfer y prynhawn, a chyflwynwyd y ffilm fer am 'Share Aware'.

**Fforwm Ieuenctid Caerdydd**
**Chloe** – mae gan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Diogelwch Ar-lein rôl bwysig i'w chwarae wrth hysbysu Llywodraeth Cymru a'r dull o ran diogelu plant ar-lein
**Rafael** – amlinellodd brif feysydd y cynllun gweithredu; hunanwerth a hunanbarch, hyder y corff. Angen mynd i'r afael â normaleiddio delweddau cignoeth ym mywydau pobl ifanc. Eisiau clywed barn pawb ar y ffordd orau o ymdrin â phobl ifanc.

***Beth sy'n chwarae ar eich nerfau am y rhyngrwyd? – Ymarfer***
(20 munud)

**Jayne Bryant** Croesawu gwesteion – ailadrodd ymddiheuriadau gan Julie Morgan AC a oedd yn siomedig i golli'r cyfarfod.
- Mae'r byd ar-lein yn cynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc, a dylent allu ei ddefnyddio'n rhydd heb risg o gam-driniaeth.
- Mae llawer o fesurau ar waith yn y byd all-lein i gadw plant yn ddiogel, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau'r un peth ar-lein.

*Cyflwyno plant o Ysgol Gynradd St Mary the Virgin yn Butetown sy'n canu cân am ddiogelwch ar-lein.*

**Jayne:** dweud 'diolch' i'r ysgolion am ddod.
- Mae gwaith ymchwil yn dangos bod pobl ifanc am i'r Llywodraeth/diwydiant weithredu i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel.
- Plant/pobl ifanc yw'r arbenigwyr ar hyn – mae angen iddynt fod wrth wraidd ein dull gweithredu a'n penderfyniadau.
- Cynllun Gweithredu newydd Diogelwch Ar-lein i Blant a Phobl Ifanc – yn y cyfarfod heddiw, gallwn drafod a mynegi barn er mwyn casglu tystiolaeth anffurfiol i lywio'r Cynllun Gweithredu.
    - Cytunodd Llywodraeth Cymru i glywed adborth gan y Grŵp Trawsbleidiol.
    - Mae ymgynghoriad parhaus â phobl ifanc ar waith i helpu i lywio'r Cynllun Gweithredu – gofyn i bobl ifanc beth y maen nhw am ei newid ynglŷ n â diogelwch ar-lein ac un dymuniad ar gyfer y cynllun gweithredu.

*Croesawu pobl ifanc o Fforwm Ieuenctid Caerdydd.*

**Fforwm Ieuenctid Caerdydd:**
Trafodaeth am rannu lluniau a delweddau cignoeth ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar snapchat – o safbwynt pobl ifanc. *Trafod y mater hwn o safbwynt oedrannau gwahanol a'r hyn sy'n gyffredin ymhlith pobl ifanc.*

- Gofyn i'r gynulleidfa am eu hymwybyddiaeth o'r defnydd o snapchat.
- Yn aml, nid yw oedolion yn deall yr iaith y mae pobl ifanc yn ei defnyddio am y cyfryngau cymdeithasol, felly sut y gallant ddechrau llunio polisi i bobl ifanc yngl ŷ n â hyn?
- Pwysleisiwyd pa mor gyffredin yw hyn ymhlith pobl ifanc – mae gan bawb snapchat, bydd y rhan fwyaf o bobl yn nabod rhywun sydd wedi anfon/derbyn/gweld delwedd gignoeth ar y llwyfan hwn.
  - Gall dynion ifanc ddefnyddio'r delweddau hyn fel troffiau.
  - Mater o hunanbarch, hunanhyder a hunanwerth.
- Mae'n anodd i oedolion ryngweithio â rhieni/oedolion am hyn.
- Roedd y bobl ifanc yn teimlo nad yr heddlu oedd y llwybr cywir i addysgu pobl ifanc ynghylch y risg o rannu delweddau ar-lein – codi ofn arnynt, gwneud iddynt deimlo eu bod wedi gwneud cam, mae eisoes wedi'i normaleiddio – mae angen iddynt allu cael sgwrs ddiogel, agored ac onest.
  - Mater o hyder unwaith eto, rhoi'r hyder iddynt rannu'r wybodaeth hon.
  - Maent yn teimlo nad oes modd i berson ifanc dan oed ddatgelu ei fod wedi rhannu/derbyn delwedd heb fynd i drafferth.
- Mae angen ffonau ar blant/pobl ifanc – maen nhw'n ffordd o ddiogelu pobl ifanc (diogelu vs risg)
  - Mae ofn ar rieni o weld eu plant yn defnyddio eu ffonau ac maent am wybod beth maen nhw'n ei wneud, ond nid ydynt yn gwybod sut i ofyn.
  - Dywedodd pobl ifanc eu bod yn credu y byddai plant yn fwy agored nag y mae oedolion yn ei ddisgwyl i drafod yn onest, os yw'r sgwrs yn dechrau mewn ffordd agored.
  - Mae angen meithrin ymddiriedaeth rhwng rhieni/plant o ran defnyddio'r ffôn – nid y tu ôl i ddrysau caeedig (lle y gall pobl gamfanteisio'n rhywiol ar blant)
- **Terfynau Oedran:** dadlau nad ydynt yn gweithio. Mae plant yn dweud celwydd, ac yna nid oes cyfrifoldeb ar y wefan os bydd rhywun yn rhoi gwybod am broblem.
  - Er bod terfynau oedran yn cael eu gweithredu gyda'r bwriadau gorau, nid ydynt wir yn atal dim.
- **Cyfyngiadau rhieni** – gall plant eu dileu y rhan fwyaf o'r amser, gan fod pobl ifanc yn deall technoleg yn well fel arfer – er y gallai fod yn ffordd dda o ddechrau sgwrs?
  - Dylai rhieni drafod eu pryderon/ofnau gyda phlant – gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus. Mae plant yn llawer mwy agored i drafod eu hymddygiad ar-lein nag y mae pobl yn meddwl.
  - Mae angen i bobl ifanc deimlo bod oedolion yn eu parchu.

**Cwestiynau:** i Fforwm Ieuenctid Caerdydd o'r gynulleidfa

***Sut ydyn ni'n stopio pobl ifanc rhag rhannu delweddau cignoeth?***
Mae addysg yn dda, ond mae angen i bobl ifanc ei chymryd o ddifrif. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn ymwybodol o gyfreithiau/canlyniadau, ond mae angen llais gofalgar hefyd.
Cefnogaeth a dealltwriaeth o ran materion fel sylw, hunanwerth a phoblogrwydd.

***Pwy y mae pobl ifanc yn siarad â nhw am y materion hyn?***
Rhieni (yn dibynnu ar y berthynas) neu bobl ifanc eraill yn bennaf. Mae cefnogaeth gan gyfoedion yn allweddol fel cyfle i bobl ifanc siarad mewn ffordd efallai na allant siarad ag oedolion, gyda jargon y cyfryngau cymdeithasol ac ati. Hefyd, efallai y bydd pobl ifanc yn fwy tebygol o dderbyn cyngor gan gyfoedion. Byddai'n ddefnyddiol cael criw ychydig yn hŷn o bobl ifanc – maent yn deall y diwylliant, yn dal i ddefnyddio'r gwefannau, ac yn deall y materion sy'n wynebu pobl ifanc ond maent hefyd yn aeddfed ac yn gallu edrych yn ôl ar eu profiad eu hunain

**Jayne:** Diolch i Fforwm Ieuenctid Caerdydd am siarad mor huawdl. Hanfodol clywed barn pobl ifanc.

- Mae angen sicrhau bod plant yr un mor ddiogel ar-lein ac all-lein. Pa newidiadau sydd eu hangen arnom i gyflawni hyn?
    1. Mae gan rieni a phobl ifanc yr hawl i gael gwybodaeth glir a chywir – cyngor, cefnogaeth, addysg ar gadw'n ddiogel
    2. **OND** ni ddylai'r ddyletswydd i gadw'n ddiogel fod ar rieni/plant yn unig – mae angen newid ehangach
    3. Mae'n annerbyniol bod plant yn agored i gynnwys annymunol/anghyfreithlon ar-lein – mae angen gwelliannau sylweddol i atal risgiau, a sicrhau bod ffyrdd o adrodd/blocio, a chefnogaeth emosiynol bob amser ar gael.
    4. Mae angen i lwyfannau ar-lein ystyried a yw eu gweithdrefnau diogelu yn adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir all-lein – mae angen iddynt adlewyrchu egwyddorion polisïau diogelu traddodiadol. Mae angen i lywodraethau bwyso am y newidiadau hyn.

Mae angen ymdrech ar y cyd i gyflawni'r newidiadau hyn. Mae angen inni geisio ateb mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc. Mae'r digwyddiad hwn heddiw wedi cymryd y cam cyntaf tuag at hyn.

Diolch i bawb am ddod. Rhan ffurfiol y sesiwn yn dod i ben.

**Cwestiynau pellach:** rhwng Fforwm Ieuenctid Caerdydd a'r gynulleidfa

***Diogelwch ar-lein mewn ysgolion – pam nad yw wedi gweithio?***
Bai'r dull o gyflwyno yn aml – nid y gwasanaeth foreol yw'r lle gorau i drafod hyn. Yn aml, mae adnoddau a sesiynau wedi'u hanelu at blant iau, ond mae profiadau pobl ifanc yn eu harddegau yn wahanol iawn. Mae angen trafod diogelwch ar-lein mewn ffordd y gellir uniaethu â hi. Grwpiau oedran sy'n peri pryder:

14-18 – llinellau aneglur, awydd i fod yn fwy aeddfed ond dal yn bobl ifanc dan oed
11-15 – ddim yn gwybod y gall eu hymddygiad fod yn anghywir/llai ymwybodol o'r peryglon. Hefyd, ddim yn ystyried y canlyniadau ymlaen llaw – gweithredu nawr a gwneud eu hunain yn agored i niwed. Ceisio gweithredu fel oedolion, teimlo bod ganddynt yr hawl i ymddwyn yn y ffordd honno.
Mae angen i'r drafodaeth fod yn uniongyrchol, ond yn barchus hefyd heb fychanu pobl ifanc

***Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth blentyn 11 oed, ei rieni, a'i athrawon am ddiogelwch ar-lein?***
Bod cyswllt rhwng eich persona ar-lein a'ch persona all-lein – bydd cyflogwyr yn y dyfodol yn edrych ar eich proffiliau ar-lein. Mae angen cofio nad yw'r rhyngrwyd yn breifat. Dywedwch wrth bobl ifanc hefyd i fwynhau bod yn ifanc ac i beidio â brysio i fod yn aeddfed.

***O ble y mae pobl ifanc yn cael gwybodaeth am y rhyngrwyd?***
Profiad yn bennaf, clywed am brofiadau pobl eraill a gweld profiadau pobl eraill. Mae'r byd ar-lein yn ganolog i ddiwylliant ieuenctid nawr, ac mae'r genhedlaeth hon wedi tyfu i fyny ar-lein. Hefyd, mae oedolion yn meddwl bod bywydau ar-lein yn gyfrinachol ond nid yw'n gyfrinachol rhwng pobl ifanc, dim ond rhwng pobl ifanc ac oedolion y mae'n gyfrinach. Yn aml, nid yw oedolion yn deall iaith ar-lein.

***Sut all yr Heddlu chwarae rhan yn hyn?***
Rhoi'r dewis i bobl ifanc wrth fynegi pryderon am ddiogelwch ar-lein yn ddienw. Gall gwisg ffurfiol yr heddlu godi ofn – byddai'n dda gallu trafod â'r heddlu mewn ffordd agos atoch. Hefyd, ffurfioldeb amgylchedd ysgol a gwisg ysgol a'r ddynameg o ran pŵer.
Mae ofn ar bobl ifanc gyhuddo/rhoi'r bai ar bobl

**David Hopkins:** diolch i'r Fforwm Ieuenctid a'r gynulleidfa. Y sesiwn gwestiynau yn dod i ben.

Mae'r drafodaeth yn parhau ymhlith y gwesteion a chesglir gwybodaeth am brif flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu ar ddiogelwch ar-lein yng Nghymru. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn casglu gwybodaeth i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru nes bod y digwyddiad yn dod i ben.